**ATODIAD 4**

**NODYN AR GANLYNIADAU HOLIADURON STAFF**

Mae'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith yn o'r brif atebion i gwestiwn agored "Beth sy'n gwneud Cyngor Gwynedd lle gwych i weithio" mewn holiaduron staff dros y blynyddoedd. Mae'n bwysig nodi bod hwn wedi bod yn gwestiwn hollol agored heb restr o ddewisiadau.

Yn 2013 roedd 8% o'r atebion yn deud "y gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg" (DS Roedd "aelodau eraill o'r tim" yn bell ar y blaen gyda 40% o'r atebion). Mae'r canran o ymatebion ynglyn âr Gymraeg ar yr un lefel â "Fy rheolwr" ,"darparu gwasanaethau o werth", "amodau a thelerau gwaith" a hefyd "y gallu i weithio'n hyblyg".

Yn 2011, er bod y canran yn llai (tua 5.5%) roedd yn rhan o'r un "grwp" o atebion. Roedd amrywiaeth yr atebion wedi gostwng y canrannau yn gyffredinol (e.e. oedd "aelodau eraill o'r tim" dal yr ateb uchaf, ond gyda chanran o ddim ond 28%).

Yn 2009 oedd 4.5% yn rhoi "defnydd o'r Gymraeg" fel ateb ond eto yn rhan o'r un grwp o atebion a'r ddau arolwg arall.

Oherwydd bod hwn yn gwestiwn agored gyda'r nifer o atebion yn amrywio o arolwg i arolwg, rhaid cymryd gofal o sut yr ydym yn defnyddio'r canrannau (hynny ydy, nid yw'r cynnydd yn y ganran o 2009 i 2013 ddim o reidrwydd yn dangos mwy o ymrwymiad at yr Iaith).

Fodd bynnag, mae yn sicr ei fod yn un o'r ffactorau pwysicaf gan staff pan y maent yn meddwl am "Beth sy'n gwneud Cyngor Gwynedd lle gwych i weithio" ac yn rhan o'r ail grwp o'r atebion mwyaf poblogaidd – ar ôl atebion sy'n ymwneud a'r "tim" - ar bob achlysur, ochr wrth ochr â phethau sylfaenol eraill i fywyd gwaith staff fel "amodau a thelerau gwaith".